

14. Y TAIR COEDEN
(Stori werin draddodiadol)

Un tro roedd tair coeden yn tyfu ochr wrth ochr yn y goedwig. Yr oeddent yn ffrindiau. Fel pob criw o ffrindiau, byddent yn hoff o dreulio'u hamser yn sgwrsio. Ac fel y rhan fwyaf o ffrindiau, er eu bod fwy neu lai yr un taldra, ac yn tyfu yn yr un fan, roedd pob un ohonynt yn wahanol.

Harddwch a garai'r goeden gyntaf.

Antur a garai'r ail goeden.

Ac roedd y drydedd goeden yn caru Duw.

Beth bynnag, un dydd roedd y coed yn sgwrsio am yr hyn yr hoffent ei wneud wedi tyfu i fyny.

'Pan fyddaf i wedi tyfu i fyny rwyf am fod yn gist drysor gerfiedig, yn llawn o emau disglair,' meddai'r goeden gyntaf.

Doedd yr ail goeden yn hidio fawr am y syniad hwn. 'Pan fyddaf i wedi tyfu i fyny rwyf am fod yn llong fawr gref,' meddai. 'A bydd fy nghapten yn anturiaethwr mawr a gyda'n gilydd cawn ddarganfod tiroedd newydd.'

Yn y cyfamser roedd y drydedd goeden yn ysgwyd ei changhennau. 'Dwi ddim am gael fy ngwneud yn unrhyw beth,' meddai. 'Dwi eisiau aros yma'n tyfu'n dalach o flwyddyn i

flwyddyn. Dwi eisiau bod y goeden dalaf yn y goedwig. Yna pan fydd pobl yn edrych i fyny arnaf fe welant fy mod yn dangos y ffordd iddynt at Dduw.'

Aeth blynyddoedd heibio ac yna un dydd daeth tri choediwr i'r goedwig.

'O'r diwedd!' llefodd y goeden gyntaf wrth i'r coediwr ei thorri i lawr. 'Mae fy mreuddwyd o gael fy ngwneud yn gist drysor ar fin cael ei gwireddu.'

'Gwych!' llefodd yr ail goeden wrth i'r ail goediwr ei thorri i lawr. 'Mae fy mreuddwyd o gael fy ngwneud yn llong hwylio ar fin cael ei gwireddu.'

'O na!' llefodd y drydedd goeden wrth i'r trydydd coediwr ei bwrw i'r llawr. 'Nawr chaf fi ddim dangos y ffordd at Dduw.'

Aeth y tri choediwr â'r coed i ffwrdd. Ac roedd dwy o'r coed o leiaf yn llawn gobeithion am y dyfodol. Ond cyn hir roedd breuddwydion y tair yn deilchion. Yn hytrach na chael ei gwneud yn gist drysor defnyddiwyd y goeden gyntaf i wneud rhyw hen fansier hyll i fwydo anifeiliaid. Nid llong hwylio a wnaed o'r ail goeden ond cwch pysgota bach digon di-nod. Ac am y drydedd goeden, ni wnaed dim o gwbl ohoni. Fe'i torrwyd yn 'styllod a'i gadael yn bentwr yn iard yr adeiladwr.

Aeth bywyd yn ei flaen. Aeth blynyddoedd heibio. Ac yn raddol daeth y tair coeden i ddygymod â'u siom.

Yna, un noswaith oer o aeaf, newidiodd bywyd y goeden gyntaf yn llwyr. Ganed baban – ac yn amlwg nid baban cyffredin mohono. Canodd Angylion a daeth bugeiliaid a brenhinoedd i ymweld ag ef.

A fedrwch chi ddyfalu pa fansier i fwydo anifeiliaid a ddefnyddiwyd gan fam y baban fel crud?

Wyddoch chi, pan sylweddolodd y goeden gyntaf beth oedd wedi digwydd, llanwyd ei chalon â llawenydd. 'Daeth fy mreuddwydion yn wir wedi'r cyfan,' meddai. 'Efallai na chefais fy llenwi ag aur a gemau. Ond rwyf wedi cael dal y trysor mwyaf ar wyneb daear.'

Aeth sawl blwyddyn arall heibio – tua deg ar hugain i gyd – ac yna un dydd, o'r diwedd, newidiodd popeth i'r ail goeden. Roedd hi allan ar ganol y llyn pan gododd storm enbyd. Roedd y gwynt mor gryf a'r tonnau mor uchel nes bod y goeden fach yn sicr ei bod

am suddo. Ac yna digwyddodd rhywbeth rhyfeddol. Safodd un o'r dynion oedd ar ei bwrdd ar ei draed. 'Tawelwch! Byddwch lonydd,' meddai wrth y gwynt a'r tonnau. A dyma hwy'n ufuddhau iddo.

A phan sylweddolodd yr ail goeden beth oedd wedi digwydd, llanwyd ei chalon â llawenydd.

'Daeth fy mreuddwydion yn wir wedi'r cyfan,' meddai. 'Efallai na chefais gludo anturiaethwr mawr ar fy mwrdd, ond cefais gludo Creawdwr nef a daear.'

Ni fu'n rhaid i'r drydedd goeden aros yn hir cyn i bethau newid iddi hithau. O'r diwedd daeth saer i'r iard ac aeth â hi i ffwrdd. Ond er mawr siom i'r goeden ni wnaed unrhyw beth hardd ohoni. Na dim defnyddiol. Yn hytrach fe'i gwnaed yn groes bren arw.

'Dyma'r math o groes a ddefnyddir gan filwyr i roddi drwgweithredwyr i farwolaeth,' sylweddolodd y goeden yn llawn arswyd.

Ac yn wir i chi, daeth ofnau'r goeden yn wir. Cafodd ei chludo i ben y bryn, ac yno hoeliwyd gŵr ar y groes a'i adael i farw.

Oni bai am un peth, hwn fyddai'r dydd gwaethaf ym mywyd y goeden. Nid drwgweithredwr cyffredin yn talu'r pris am ei drosedd oedd yr un a ddioddefai ar y groes. Ond Iesu – Mab Duw – yn marw dros bechod y byd.

A phan sylweddolodd y drydedd goeden beth oedd wedi digwydd yr oedd ei chalon yn gor-lifo â llawenydd.

'Daeth fy mreuddwydion yn wir wedi'r cyfan,' meddai. 'Efallai nad fi yw'r goeden dalaf yn y goedwig. Ond o'r dydd hwn ymlaen, fel croes Crist, byddaf wastad yn dangos y ffordd i bobl at Dduw.'

HYD: 4–5 munud

NEGES: Cyflawnodd Duw ei gynllun ar gyfer y byd trwy Iesu. Yn Iesu canfyddwn gynllun perffaith ar gyfer ein bywydau.

DARLLEN: Effesiaid 1: 1–14